# CYNGOR CYMUNED MAENTWROG

## Cofnodion Cyfarfod 29/04/2025

Presennol: Eirian Hoyle, Heulwen Parry, Meredydd Williams, Gareth Jones, Eurwyn Jones, Francesca Williams, Rebecca Phasey, Elfed Roberts

1. Ymddiheuriadau: Dim

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir: HP, EJ

2a. Datgan Diddordeb: Dim

2b. Croesawyd Elin Pritchard, i'r cyfarfod i drafod grantiau sydd ar gael. hefyd i gynnig cefnogaeth i gwblhau ceisiadau.

<u>3. Materion yn codi o'r cofnodion</u>

3.625 _Cae Chwarae Gellilydan- clerc i ail-gysylltu ac anfon ymateb ar ôl derbyn.

3.626 Tir ger Gors Fach / Coed Gors Fach – adroddiad wedi dderbyn gan Elfed Robers. Mae chwarter y darn tîr yn perthyn i Gors Fach, ac nid oes mynedfa swyddogol. Awgrymwyd gwneud gwaith ffensio a creu mynedfa mewn lle saff. Cyfarfod arall i'w drefnu gyda Amanda Murray.

3.627 National Grid: Yn dilyn cyfarfod gyda Dwynwen, Adroddiad byr gan Meredydd Williams yn siarad am grantiau sydd ar gael, (cadw mlaen).

3.628 Safleoedd Bysiau Maentwrog – Elfed Roberts am drefnu cyfarfod hefo Rhian Wyn Williams a chysylltu a'r cynghorwyr i weld os ydynt eisiau bod yn bresennol.

3.629 Hyfforddiant Clerc i gysylltu ac Un Llais i drefnu hyfforddiant o'r Côd Ymddygiad.

3.630 Archwiliad Allianz – llun wedi ei ddanfon at Wickstead, disgwyl ymateb.

3.631 Plas Tan y Bwlch - Derbyniwyd addroddiadd gan Meredydd Williams. Mae'r Parc yn gobeithio am grantiau er mwyn symyd o'r pencadlys bresennol i Blas Tan y Bwlch. Rhagor o fanylion i ddilyn.

3.632 Van wedi ei barcio wrth yr hên bost. Dim ymateb wedi dderbyn gan yr Heddlu na Chyngor Gwynedd. Clerc i gysylltu a'r Prif Weithredwr.

3.633 Traffig Maentworg i Cilfor – ymateb wedi ei dderbyn gan Andrew Gregson,

***Diolch am eich ymholiad.***

***Diolch am eich ymholiad. Mae'n debyg yr ydych yn ymwybodol ond mae yna waith parhaus gan National Grid / SPEN ar hyd yr A496 o Cilfor i Maentwrog yn bresennol fydd yn golygu bydd y ffordd yn cael ei gau am o ddeutu 12 mis o mis Mai ymlaen. Ni welwn budd i osod yr arwydd yma tra bod y gwaith yn mynd yn ei flaen. Dwi wedi cynnwys e-bost ddiweddar i Cynghorydd Elfed Roberts yn rhoi amserlen i'r gwaith. Dwi'n hapus i ail gydio yn y cais ar ddiwedd y cyfnod yma.***

3.634 Cefnfaes – Ymateb wedi dderbyn gan Philip Hobson, mae yn dal i gael ei ystyried ar gyfer rhestru, byddent yn cysylltu pryd fydd penderfyniad wedi ei wneud.



CamScanner

3.635 Gof Golofn – Pris wedi ei dderbyn gan 'Argraffdy Eryri'. Cytunwyd, clerc i drefnu taliad.

3.636 Tir ger cae chwarae Maentwrog (dros y ffordd i Tan y Foel) – ymateb wedi ei dderbyn gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Gwynedd.

Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru,

***Diolch am gysylltu hefo ni ynglun a hwn. Mae'r mater yn cael ei ymchwilio. Er gwybodaeth, mae ein polisi adborth wedi cael ei ddiweddaru, gweler isod;***

***Ni ydym yn darparu adborth unigol ar ein hymateb i, na chanlyniad, adroddiadau o ddigwyddiadau posibl, tor-rheolaeth neu weithgaredd troseddol. Mae hyn er mwyn i ni allu canolbwyntio ein hadnoddau ar ddarparu gwasanaeth digwyddiadau a rheoleiddio effeithiol a chost-effeithlon, i ddiogelu amgylchedd a phobl Cymru.***

***Gwerthfawrogwn yn fawr yr adroddiadau a dderbyniwn a hoffem ddiolch i chi am gymryd yr amser i adrodd eich sylwadau i ni. Mae'r adroddiadau hyn yn hollbwysig i'n galluogi i nodi a mynd i'r afael ag effeithiau digwyddiadau, achosion o dorri rheoliadau a gweithgarwch troseddol, a darparu gwybodaeth werthfawr i gefnogi ein gwaith atal digwyddiadau a chydymffurfiaeth reoleiddiol a gorfodi.***

Ymateb Cyngor Gwynedd,

***Rydw i wedi derbyn eich pryderon am ddarn o dir sydd efo gwaith yn cael ei wneud arno ym Maentwrog. O'n rhan ni yn yr adran Llygredd does dim byd i'w weld o'i le gyda beth mae nhw yn ei wneud ar y tir ar hyn o bryd. Mae nhw i weld yn clirio yr darn o dir o rwbel ac yn rhoi grafel newydd i lawr.***
***Rydw i yn deall bod nhw wedi stacio preniau a choed, ond tydi nhw ddim i weld yn bwriadu eu llosgi nhw, gan eu bod nhw wedi didoli rhwng prenia coed ac prenia palet ac oddi wrth unrhyw deunydd rwbel arall.***
***Mae'n ymddangos mai trefnu'r rwbel a'r preniau er mwyn cael eu gwared mae nhw. Er gwybodaeth bydd rhaid i ni gael cwyn gan rhywun sydd yn byw yn gyfagos pe bai unrhyw fwg yn dod o losgi'r deunyddiau er mwy i ni allu weithredu ar yr achos fel mater Iechyd y Cyhoedd.***
***Gyda mater o draeniau yn cael eu niweidio neu tarfu, mae agoriad y draeniau wedi lleoli ac wedi ei amgylchu gyda silindr concrit. Mae nhw yn agored, sy'n awgrymu wrthyf eu bod yn ymwybodol am leoliad a chyfeiriad llif y draeniau.***
***Os oes gennych unrhyw bryderon am unrhyw adeiladu ar y tir yn y dyfodol yna cysylltwch gyda ein hadran Rheolaeth Adeiladu yn y Cyngor.***
***Os oes gennych unrhyw cwestiynau ychwanegol am mater hwn sydd i wneud ac Llygredd dewch yn nol ataf ar bob cyfrif.***

3.637 Bioamrywiaeth - Dref Werdd wedi bod yn trîn y 'raised beds'.

<u>4.Materion i'w Trafod:</u>

4.268 Polisi Gosod Lleol / Polisi Iaith - clerc i ymateb bod y Cyngor Cymuned yn cytuno ar egwyddor.

4.269 Cyflog Clerc: Cytunwyd i'w godi 20%.

4.270 Bryn Arms: cwyn wedi dderbyn bod stwff brown yn dod fewn i'r afon gan bod y dŵr wedi ei ddargyfeirio. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol o hyn.

4.271 Sedd Wâg - clerc i gysylltu a Cyngor Gwynedd i ddechrau y broses o lenwi'r sedd wâg.

4.272 Hysbysfyrddau: Clerc i gysylltu ac Emma Jones i gael pris am rhoi farnais arnynt.



CamScanner

4.273 Cae chwarae Maentwrog - Arywdd i'w osod bod y 'roundabout' ddim i'w defnyddio, a gosod ffens o'i amgylch.

5. Ariannol

5.198 Cyfrif Cadw: £227.18

5.199 Cyfrif Cyfredol: £3180.86

Cytunwyd i dalu y canlynol:

5.200 Archwilio Cymru: £611.00 – clerc i gysylltu ac Unllais am yr oedi mewn anfon anfonebau.

6. Cynllunio

Dim ceisiadau

7. Gohebiaeth

260 Rhybydd cau ffordd Nant y March

261 Canllaw Cynllunio Atodol

262 Cymgynghoriad Cyhoeddus CCA

263 Penderfyniad Terfynol Arolwg y Senedd

264 Cyfellion Llyn

265 Cyfarfod Open Utilities Solution Ltd

266 A147 Deddf Priffyrdd 1980

267 Fforwm Cymunedau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

268 Nicholas Reed – claddu llwch

8. Adroddiad o gyfarfodydd eraill

Dim newyddion

9. Mynwent Dwyryd

9.62 Cyfrif y Fynwent: £22822.44

Cytunwyd i dalu y canlynol:

9.63 Elfed Roberts am drefnu cyfarfod arall gyda Mr a Mrs Rix – (cadw mlaen).

9.64 Lle parcio – Dewi Jones am ymweld a'r safle.

9.65 Tap y Fynwent wedi ei newid.

9.66 Ail roi rheolau Fynwent ar yr Hysbysfwrdd.

Dyddiad Cyfarfod Nesaf



CamScanner

Cyfarfod Blynyddol nos Fawrth y 10fed o Fehefin am 6.30 o'r gloch yn Neuadd y Pentref, Gellilydan.

***Neuadd y Pentref:*** ***Cyfarfod wedi ei drefnu at yr wythnos yn dechrau'r 5ed o Fai.***



CamScanner